

Cylchlythyr | Circular

Ymgynghoriad ar fonitro cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch

Dyddiad: 09 Awst 2022
Cyfeirnod: W22/28HE
At: Benaethiaid sefydliadau addysg uwch yng Nghymru
Ymateb erbyn: Dydd Gwener 23 Medi 2022
Cyswllt Enw: Jane Johns, Amanda Phillips
E-bost: jane.johns@hefcw.ac.uk;
amanda.phillips@hefcw.ac.uk

Yn yr ymgynghoriad hwn gofynnir am ymatebion ynghylch monitro cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch, fel y bo'n berthnasol i staff a myfyrwyr.

Os oes angen y ddogfen hon arnoch
mewn fformat hygyrch arall, anfonwch
e-bost i info@hefcw.ac.uk.



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Cyflwyniad

1. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn am ymatebion ynghylch cynigion CCAUC i fonitro cydraddoldeb hiliol mewn addysg uwch yng Nghymru. Byddwn yn monitro data'r staff a'r myfyrwyr. Byddwn yn cyhoeddi ein gwaith monitro'n flynyddol ar raddfa genedlaethol.
2. Pwrpas monitro cydraddoldeb hiliol yw cael dealltwriaeth fanylach o amrywiaeth y boblogaeth addysg uwch yng Nghymru (staff a myfyrwyr).
3. Bydd y gwaith monitro cydraddoldeb hiliol hwn yn llywio datblygiad ein polisi cydraddoldeb hiliol ac ymrwymadau ein cynllun cydraddoldeb strategol, ac yn cyfrannu at [Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol](#) Llywodraeth Cymru (Y Cynllun). Ein bwriad yw gweithio gyda darparwyr addysg uwch i newid y diwylliant mewn addysg uwch, mynd i'r afael â hiliaeth a sicrhau cydraddoldeb hiliol.

Y Cefndir

4. Yn y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, mae Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei disgwyliadau y bydd:

'y sector AU yn gwneud cynnydd cyflym a pharhaus i fynd i'r afael â hiliaeth a gwella profiad staff a myfyrwyr ethnig lleiafrifol mewn AU' (t.42).

Fel un o'r camau i gyflawni hyn, nodir yn y Cynllun: 'Er mwyn mesur newid dros amser, rhaid inni fynd ati ar fyrder i wella cyflawnder y data ar ethnigrwydd mewn addysg a'r defnydd a wneir o'r data hynny. Mae angen inni ddefnyddio'r data sydd ar gael ar hyn o bryd mewn ffordd fwy systemig' (t.41).
5. Ceir cam gweithredu i addysg uwch 'Gyhoeddi adroddiad blynyddol ar gydraddoldeb hil a mesurau perfformiad ar gyfer y sector, gan gynnwys canlyniadau i fyfyrwyr a staff' o 2023.

Cyflwyno gwaith monitro cydraddoldeb hiliol: manteision a chyfyngiadau

6. Mae Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol yn nodi camau i'w cymryd rhwng Mehefin 2022 a Mehefin 2024. Nid ydym eisiau oedi cyn cymryd camau pellach ynghylch cydraddoldeb hiliol, na chyn ymateb i Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.
7. Gall ein gwaith monitro cydraddoldeb hiliol ddatblygu ac esblygu dros amser, mewn ymgynghoriad â darparwyr a phartïon eraill â buddiant, gan ystyried adolygiadau o Gynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol, a hefyd wrth inni drosglwyddo i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil a fydd yn gyfrifol am yr holl sector ôl-16.
8. Byddwn yn casglu data perthnasol ac yn dadansoddi tueddiadau yn rheolaidd i lywio ein dealltwriaeth o faterion sy'n ymwneud â chydraddoldeb, ac i gyflawni

nodau'r dyletswyddau a osodwyd arnom yn sgil y Ddeddf Cydraddoldeb gyffredinol, a'r Ddeddf Cydraddoldeb penodol i Gymru. Yn ogystal â hynny, byddwn yn ymgysylltu â rhanddeiliaid, cyrff perthnasol y DU a sefydliadau eraill yng Nghymru i fonitro a meincnodi ein cynnydd a llywio polisi.

9. Dylai gwaith monitro gyfrannu at ein dealltwriaeth o amrywiaeth staff a myfyrwyr mewn addysg uwch dros amser. Bydd monitro cydraddoldeb hiliol yn ein galluogi i roi tystiolaeth o gynnydd tuag at ein huchelgais i gynyddu cyfraddau mynediad a chadw a llwyddiant pobl (staff a myfyrwyr) mewn addysg uwch yng Nghymru o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig.
10. Ni fydd monitro cydraddoldeb hiliol yn ddiben ynddo'i hun. Dim ond un mecanwaith a ddefnyddir gennym i asesu perfformiad y sector a darparwyr addysg uwch unigol yw monitro data. Mae hynny'n rhoi tystiolaeth i ni, i gyrff llywodraethu a phartion eraill â buddiant o gynnydd a gwelliant dros amser, ac yn dangos effaith buddsoddi arian cyhoeddus. Byddwn yn defnyddio ein hysgogiadau polisi a chyllido, yn ogystal â dadansoddiadau ansoddol, fel bo'n briodol, i gyfrannu at nodau'r Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gynnwys y nod o greu Cymru gyfartal ymhlith eraill.
11. Rydym yn cynnig llunio a chyhoeddi adroddiad monitro cydraddoldeb hiliol newydd yn flynyddol. Bydd ein gwaith monitro'n seiliedig ar ddadansoddiad o ddata allweddol sy'n ymwneud â staff a myfyrwyr. Bydd y gwaith monitro yn canolbwyntio ar:
 - i. fynediad a recriwtio staff a myfyrwyr i addysg uwch;
 - ii. cadw mewn gwaith ac ar gyrsiau astudio; a
 - iii. chynnydd academaidd a phroffesiynol staff a myfyrwyr.
12. Wrth fonitro byddwn yn defnyddio ystod o ddata fel mesuriadau procsi o gynnydd, gan gydnabod cyfyngiadau'r data hynny. Un o'r cyfyngiadau ar y data y byddwn yn eu monitro fydd y posibilrwydd o beidio gallu cyhoeddi data croestoriadol yn sgil materion datgelu data, oherwydd gall y niferoedd dan sylw fod yn fach yn aml.
13. Mae'r data a gynigir yn rhoi ffordd i ddeall mwy am gydraddoldeb hiliol ar adegau allweddol i staff a myfyrwyr. Rydym yn cydnabod mai mesuriadau procsi yw'r pwyntiau allweddol hyn, felly fe'u hystyrir ochr yn ochr â thystiolaeth ansoddol.
14. Mae rhywfaint o'n gwaith monitro yn canolbwyntio ar fylchau anesboniadwy mewn deilliannau rhwng pobl o wahanol gefndiroedd. Rydym yn cydnabod bod pobl o wahanol gefndiroedd, ac oddi mewn i'r cefndiroedd hynny, yn wynebu rhwystrau wrth gael mynediad i addysg uwch, a llwyddo mewn addysg uwch.
15. Gallai monitro rhai mathau o ddata greu canlyniadau anfwriadol. Un canlyniad posibl yw tuedd i ganolbwyntio ar yr hyn y gellir ei fesur yn unig - hyd yn oed os yw'r data a ddefnyddir yn brocsi sy'n cyfrannu at y canlyniad a ddymunir. Ar ôl cytuno ar baramedrau monitro, mae'n bosibl y rhoddir llai o flaenoriaeth i agweddau eraill nad ydynt yn cael eu monitro. Yn ogystal â hynny, ceir llawer o agweddau ar waith addysg uwch sy'n cael effaith tymor hwy ar unigolion a

chymunedau, ac na fyddant o bosib yn cael eu monitro mewn modd meintiol, neu a fydd y tu hwnt i gwmpas dylanwad addysg uwch.

16. Lle bynnag y bo modd, rydym yn anelu i ddefnyddio data sydd eisoes ar gael inni, er enghraifft data unigoleidig a gesglir gan HESA, neu byddwn yn defnyddio data sydd ar gael i'r cyhoedd, megis y data a ddelir gan UCAS, i leihau'r baich adrodd ar ddarparwyr addysg uwch. Er y byddwn yn gallu dadansoddi data unigoleidig HESA fel bo'r angen, mae'n bosibl y cyfyngir ar ein dehongliad o'r data, neu ein gallu i gyhoeddi'r data, yn sgil niferoedd bach a'r angen i gadw at arferion rheoli datgelu data. Os byddwn yn canfod agweddau sy'n destun pryder ym maes cydraddoldeb hiliol byddwn yn turio'n fanylach drwy'r data i ganfod a oes unrhyw ffactorau wrth wraidd hynny y dylem fynd i'r afael â nhw. Byddwn yn defnyddio gwaith monitro ychwanegol, atodol, adroddiadau ar ein cynllun cydraddoldeb blynyddol neu ymchwil a gomisiynir, i fynd i'r afael â phryderon newydd, neu bryderon sy'n dod i'r amlwg.
17. Yn unol â gweithdrefnau rheoli safonol CCAUC ar ddatgelu data¹, gallai peth o'r data rydym yn eu monitro gynnwys niferoedd sy'n rhy fach i'w cyhoeddi. Lle bo'r niferoedd cyhoeddadwy'n fach, bydd cynnydd/gostyngiad bach yn cael effaith sylweddol ar gyfrannau'r myfyrwyr neu'r staff mewn set ddata. Bydd peth o'r data yn cynnwys lefelau uchel o ddata 'anhysbys' neu 'wedi'i wrthod', lle gallai'r data fod ar goll neu lle dewisodd unigolion beidio ag ymateb. Mae niferoedd bach ac/neu absenoldeb data yn fater o bwys, a byddwn yn cydweithio â phrifysgolion i ddeall a ellir gwella trefniadau i goladu data, gan gydnabod bod unigolion yn cadw'r hawl i wrthod rhannu gwybodaeth.
18. Rydym yn parchu natur unigryw gwahanol gefndiroedd hiliol. Byddwn yn ceisio datgyfuno data lle bo modd i adlewyrchu profiad y gwahanol grwpiau. Os byddwn yn cyfuno data, ein bwriad yw osgoi cyhoeddi data lle mae'r niferoedd yn rhy fach, gyda'r posibilrwydd felly o ddatgelu pwy yw'r unigolion dan sylw. Ni fwriedir dangos unrhyw amharch wrth gyfuno fel hyn, ond yn hytrach ein galluogi i dynnu sylw at faterion a ddatgelir yn y data y dylid mynd i'r afael â nhw drwy bolisi ac arferion.
19. Yn rhai rhannau o'r gwaith monitro a gynigir gennym, mae ein dadansoddiad data wedi dangos bod gwahaniaethau anesboniadwy yn nifer ac/neu gyfran y myfyrwyr neu'r staff o wahanol gefndiroedd hiliol. Er mwyn monitro effeithiolrwydd addysg uwch wrth fynd i'r afael â chydraddoldeb hiliol, rydym yn cynnig y dylid monitro'r gwahaniaethau hyn a ddisgrifir yn ein gwaith monitro fel 'bylchau anesboniadwy'. Mae bwloch anesboniadwy yn cynnwys ystyried yr amrywiaeth ym mhoblogaeth gyffredinol y DU.

Trefniadau monitro a gynigir

20. Rydym wedi dadansoddi'r ystod eang o ddata sydd ar gael inni ar staff a myfyrwyr. Ar sail yr arolwg hwn o ddata sydd ar gael a'r meysydd ffocws a nodwyd uchod, cynigir monitro'r canlynol yn flynyddol ar gyfer darparwyr yng Nghymru:

¹Mae methodoleg datgelu data CCAUC yn seiliedig ar fethodoleg talgrynnu safonol Gwasanaethau HESA.

Cyn mynediad: Ymgeiswyr UCAS

- i. nifer, cyfrannedd, newid canrannol blynyddol o ran nifer a newid i'r pwynt canran blynyddol yng nghyfrannedd y **ceisiadau** UCAS i gyrsiau israddedig amser llawn gan ymgeiswyr sy'n hanu o'r DU ac sydd o gefndiroedd Du, Asiaidd ac o leiafrif ethnig.
- ii. nifer, cyfrannedd, newid canrannol blynyddol o ran nifer a newid i'r pwynt canran blynyddol yng nghyfrannedd yr **ymgeiswyr** UCAS i gyrsiau israddedig, amser llawn sy'n hanu o'r DU ac sydd o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig.
- iii. y bwlch anesboniadwy rhwng y **gyfradd gynnig** i ymgeiswyr 18 oed sy'n hanu o'r DU ar gyfer cyrsiau israddedig i ymgeiswyr UCAS amser llawn sydd o gefndiroedd gwyn, Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig.
- iv. nifer, cyfrannedd, newid canrannol blynyddol o ran nifer a newid i'r pwynt canran blynyddol yng nghyfrannedd yr ymgeiswyr UCAS **sy'n cael lle** ar gwrs israddedig amser llawn sy'n hanu o'r DU, ac sydd o gefndiroedd gwyn, Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig.

Mynediad, cadw a llwyddiant: israddedigion (cofnod myfyrwyr HESA)

- v. nifer, cyfrannedd, newid canrannol blynyddol o ran nifer a newid i'r pwynt canran blynyddol yng nghyfrannedd yr ymgeiswyr sy'n **hanu o'r DU i gyrsiau israddedig amser llawn a rhan-amser**, sydd o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig.
- vi. y bwlch anesboniadwy rhwng cyfran yr ymgeiswyr gwyn, Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig na wnaethant adael o fewn 50 diwrnod ar ôl dechrau'r cwrs, ac **sy'n bresennol mewn addysg uwch**:
 - 1) **flwyddyn ar ôl y flwyddyn fynediad** yn achos ymgeiswyr israddedig amser llawn sy'n hanu o'r DU; a
 - 2) **ddwy flynedd ar ôl y flwyddyn fynediad**, yn achos ymgeiswyr gradd gyntaf rhan-amser sy'n hanu o'r DU.
- vii. y bwlch anesboniadwy rhwng **canlyniadau** gradd (dosbarth cyntaf a 2:1) myfyrwyr o gefndiroedd gwyn, Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig, ar gyfer myfyrwyr sy'n hanu o'r DU sy'n astudio'n rhan-amser a/neu'n llawn-amser.

Mynediad, cadw a llwyddiant: staff, wedi'u rhannu yn ôl staff academiaidd ac anacademaidd (cofnod staff HESA)

- viii. nifer, cyfrannedd, newid canrannol blynyddol o ran nifer a newid i'r pwynt canran blynyddol yng nghyfrannedd y **staff** o gefndiroedd gwyn, Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig.

- ix. y bwlch anesboniadwy rhwng cyfran y **staff** o gefndiroedd gwyn, Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig sydd â thelerau cyflogaeth parhaol.
- x. y bwlch anesboniadwy rhwng cyfran y staff o gefndiroedd gwyn, Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig ym mhob grŵp **gradd**².

Llywodraethu

- xi. nifer a chyfran y **llywodraethwyr** o gefndiroedd gwyn, Du, Asiaidd a lleiafrifol ethnig.

Data a gwybodaeth gyffredinol

- 21. Byddwn yn defnyddio'r setiau data canlynol:
 - i. Data UCAS³ ar gyfer ceisiadau, cynigion, ymgeiswyr, ymgeiswyr sy'n cael lle
 - ii. Cofnod myfyrwyr HESA⁴ – newydd-ddyfodiaid, cadw, canlyniadau
 - iii. Cofnod staff HESA⁵ – telerau cyflogaeth, gradd a
 - iv. Monitro sicrwydd gan CCAUC – llywodraethwyr.
- 22. Byddwn yn monitro data ar lefel sefydliadau unigol, ond byddwn yn cyhoeddi data ar lefel sector Cymru yn unig.
- 23. Byddwn yn defnyddio'r diffiniadau o hil a ddefnyddir gan y setiau data hyn.
- 24. Byddwn yn monitro ymgeiswyr, newydd-ddyfodiaid a myfyrwyr sy'n hanu o'r DU, gan nad yw'n orfodol casglu gwybodaeth am ethnigrwydd y rhai nad ydynt yn hanu o'r DU. Byddwn yn monitro'r holl staff, gan ei bod yn orfodol cyflwyno gwybodaeth am ethnigrwydd y staff.
- 25. Byddwn yn defnyddio data UCAS a HESA â chategoriâu ethnigrwydd cefndir Gwyn, cefndir Du, cefndir Asiaidd, cefndir Cymysg a chefnidiroedd ethnig lleiafrifol eraill. (Mae cefndiroedd ethnig lleiafrifol eraill yn cynnwys Arabaidd a chefnidiroedd lleiafrifol ethnig eraill nad ydynt wedi'u cynnwys fel arall yn y categorïau uchod).
- 26. Byddwn yn monitro canlyniadau gradd lle bo'r radd yn radd Dosbarth Cyntaf neu'n 2:1, oherwydd bydd angen y dyfarniadau gradd hyn fel arfer er mwyn galluogi myfyrwyr i symud ymlaen i astudio ar lefel ôl-radd, ac rydym am gynyddu cydraddoldeb hiliol mewn amryw fesurau o fynediad a llwyddiant, gan gynnwys astudiaethau ôl-radd.
- 27. Er mwyn cymharu data pobl o wahanol gefndiroedd byddwn yn monitro'r bwlch anesboniadwy rhwng pobl o wahanol gefndiroedd hiliol ac/neu byddwn yn dadansoddi niferoedd y bobl o wahanol gefndiroedd hiliol. Fel y nodwyd yn yr adran uchod ar fanteision a chyfyngiadau'r data, byddwn yn ystyried yr amrywiaeth ym mhoblogaeth gyffredinol y DU wrth ystyried bwlch anesboniadwy.

²Mae graddau wedi'u nodi yn [Lefelau contract](#).

³ [UCAS Undergraduate sector-level end of cycle data resources 2021](#)

⁴ [Cofnod myfyrwyr HESA 2020/21](#)

⁵ [Cofnod staff HESA 2020/21](#)

28. Ar hyn o bryd, daw'r data ar gyfer monitro cyfraddau cadw myfyrwyr (rhif vi uchod) o ddangosyddion perfformiad HESA ar gyfer y DU a gyhoeddwyd am y tro olaf gan ddefnyddio data 2020/21⁶. Felly, bydd y dull ar gyfer cyfrifo hyn yn cael ei ddiwygio ar gyfer data o 2021/22 ymlaen.
29. Gan y bydd casgliadau data HESA yn gysylltiedig â chyrrff llywodraethu yn dod i ben, rydym yn cynnig casglu data ar amrywiaeth cyrrff llywodraethu yn uniongyrchol gan brifysgolion drwy dderbyn ffurflenni monitro blynyddol ganddynt.
30. Byddwn yn ystyried 2016/17 fel blwyddyn sylfaen ac i ddechrau'n cyhoeddi pum mlynedd o ddata ynghylch tueddiadau - 2016/17 hyd 2020/21 ar raddfa sector Cymru, ac yn y dyfodol byddwn yn ychwanegu at y gyfres amser hon yn flynyddol. Bydd tuedd dros bum mlynedd yn ein galluogi i fonitro newidiadau dros amser o flwyddyn sylfaen.

Cwestiynau'r Ymgynghoriad

- i. Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i fonitro, fel y nodwyd yn yr ymgynghoriad hwn, ynghyd â'r data a ddefnyddir gennym fel tystiolaeth o gynnydd? Os nad ydych chi'n cytuno, esboniwch pam a chynnig dull arall, gan ystyried pa ddata sydd ar gael i'r cyhoedd a nifer y pwyntiau monitro.
- ii. A oes unrhyw ddata wedi'u cynnwys yn ein cynnig i fonitro na ddylem eu monitro na'u cyhoeddi ac, os felly, pam?
- iii. A oes unrhyw ddata arall ar fyfyrwyr neu staff y dylem eu monitro a'u cyhoeddi ac, os felly, pam?
- iv. Mewn perthynas â graddau staff, rydym yn cynnig y dylid rhannu'r holl waith monitro data staff i staff academiaidd ac anacademaidd. (Nodir bod staff yn anacademaidd pan fydd y maes swyddogaeth cyflogaeth academiaidd ar gofnod staff HESA [CONTRACT.ACEMPFUN](#) = 40.)

Cynigir y dylid defnyddio'r grwpiau canlynol i ddadansoddi'r graddau:

- 1) Pennaeth Sefydliad/Dirprwy Is-Ganghellor/Cyfarwyddwr/Pennaeth Ysgol/Uwch Bennaeth Swyddogaeth
 - 2) Athro
 - 3) Pennaeth Swyddogaeth/Uwch Reolwr/Uwch Ddarlithydd/Graddau Is
- (Cymerwyd manylion am lefelau staff o'r maes [CONTRACT.LEVELS](#) ar gofnod staff HESA. Ceir rhagor o wybodaeth am lefelau ar wefan HESA: [Combined levels](#).)

A yw'r grwpiau hyn yn rhesymol neu a oes grwpiau eraill a fyddai'n fwy ystyrlon ac, os felly, pam a pha dull arall y dylid ei ddefnyddio?

⁶ [Dangosyddion Perfformiad HESA ar gyfer y DU](#).

- v. Pa **effaith** (os o gwbl), boed hynny'n gadarnhaol neu'n niweidiol, y bydd y gwaith monitro yn ei gael ar:
 - **gyfleoedd** i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
 - pheidio â **thrin** y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

- vi. Sut y gellid newid y gwaith monitro er mwyn i'r penderfyniad o ran polisi gael **effaith gadarnhaol**, neu fwy o effaith gadarnhaol, ar:
 - **gyfleoedd** i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
 - pheidio â **thrin** y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

- vii. Sut y gellid newid y gwaith monitro fel na fyddai'n cael **unrhyw effaith niweidiol**, neu fel y byddai'n cael llai o effaith niweidiol, ar:
 - **gyfleoedd** i bobl ddefnyddio'r Gymraeg; a
 - pheidio â **thrin** y Gymraeg yn llai ffafriol na Saesneg.

Rhagor o wybodaeth ac ymatebion i

- 31. Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Jane Johns (jane.johns@hefcw.ac.uk). Anfonwch ymatebion i Amanda Phillips (amanda.phillips@hefcw.ac.uk) erbyn **23 Medi 2022**.

Asesu effaith ein polisiau

- 32. Rydym yn asesu effaith ein datblygiadau polisi hil, mynediad a llwyddiant ac wedi diweddarau'r asesiad i gynnwys yr ymgynghoriad hwn ar y cynnig i fonitro cydraddoldeb hiliol.